# Dogfen Asesu Effaith Integredig

**(sy'n ymgorffori Cydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol)**

| **Enw'r Swyddog** Matt Jones<br><br>**Rhif ffôn:** 01633644508<br>**E-bost:** matthewdjones@monmouthshire.gov.uk | **Rhowch ddisgrifiad byr o nodau'r cynnig**<br><br>Ymgynghori ar adleoli Ysgol Gymraeg Y Fenni i hen safle Ysgol Gynradd Deri View, gan ganiatáu cynnydd mewn capasiti i 420 o leoedd |
|---|---|
| **Enw'r Gwasanaeth** Plant a Phobl Ifanc | **Dyddiad** Rhagfyr 2023 |

1. **A yw eich cynigion yn mynd i effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig?** Esboniwch isod yr effaith, y dystiolaeth rydych wedi'i defnyddio ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd.

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Beth sydd wedi/y bydd yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | Dim effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |
| Anabledd | Bydd y safle newydd arfaethedig yn gwbl hygyrch er mwyn caniatáu i'r rhai sydd ag anableddau allu cael mynediad i'r safle. | Dim Effaith | Dim Effaith |

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Beth sydd wedi/y bydd yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd neu famolaeth | Dim Effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |
| Crefydd neu Gred | Dim effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Dim effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |
| Hil | Dim Effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |
| Oedran | Bydd yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg ychwanegol i blant 3-11 oed sy'n byw yn y Fenni. | Nid yw addysg cyfrwng Cymraeg i blant 12-19 ar gael eto yn Sir Fynwy | Mae Cyngor Sir Fynwy, mewn cydweithrediad ag awdurdodau cyfagos yn Ne-ddwyrain Cymru, yn edrych ar opsiynau posibl ar draws y rhanbarth |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | .Dim Effaith | dd.y.b. | dd.y.b. |

| Nodweddion Gwarchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol y mae eich cynnig yn eu cael ar y nodwedd warchodedig | Beth sydd wedi/y bydd yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Rhywedd | Bydd y ddarpariaeth yn un gydaddysgol gan gynnwys bechgyn a merched. | dd.y.b. | dd.y.b. |

## 2. Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau allweddol. Mae'r ddyletswydd hon yn cyd-fynd â'n hymrwymiad fel awdurdod i Gyfiawnder Cymdeithasol.

| | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol y mae eich cynnig yn eu cael o ran pobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol y mae eich cynnig yn eu cael o ran pobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol | Beth sydd wedi/y bydd yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol** | Y gobaith yw y bydd y cynnig hwn yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy. Er enghraifft, oherwydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gallu siarad Cymraeg naill ai'n sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi fel iechyd, addysg, hamdden, gofal plant a manwerthu. Mae hyn yn arbennig o wir yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lle mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân ac achub a'r heddlu ac ati ddarparu eu gwasanaethau i'r un safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ehangu addysg cyfrwng | Mae amser, pellter a chost teithio wedi cael ei nodi fel her i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol. O ganlyniad, nid yw addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn gwirioneddol i rai dysgwyr. Mae dysgwyr na ddechreuodd addysg cyfrwng Cymraeg yn y dosbarth Meithrin neu Dderbyn wedi methu ag ymuno yn y blynyddoedd diweddarach. | Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu adolygu'r Polisi Cludiant Ysgol i sicrhau ei fod yn rhoi cyfle gwirioneddol i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnydd mewn capasiti yn y Fenni a'r datblygiad sy'n edrych ar ddarpariaeth uwchradd mewn partneriaeth â Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Phowys yn creu potensial. Bydd hyn yn caniatáu mwy o ddewis i rieni sy'n dymuno darparu addysg Gymraeg i'w plant. Mae datblygu darpariaeth trochi yn Sir Fynwy yn golygu y bydd pob dysgwr, waeth beth fo'u hoedran neu eu cefndir ieithyddol, yn gallu elwa o addysg cyfrwng Cymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymraeg ar draws Sir Fynwy yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr yn cael cyfle i ddod yn ddwyieithog a thrwy hynny roi mantais wirioneddol iddynt o ran sicrhau cyfleoedd cyflogaeth | | |

## 3. Llunio polisi a'r iaith Gymraeg.

| **Sut mae eich cynnig yn effeithio ar yr agweddau canlynol ar Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor:** | **Disgrifiwch effeithiau cadarnhaol y cynnig hwn** | **Disgrifiwch effeithiau negyddol y cynnig hwn** | **Beth sydd wedi'i wneud/am gael ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol** |
|---|---|---|---|
| **Llunio Polisi**<br><br>Effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg,<br><br>Hyrwyddo'r Gymraeg<br><br>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol | Pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y byddwn yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi teuluoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn nes at eu cartref. Byddant hefyd yn cael mynediad i feithrinfa a gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn hyrwyddo'r cynnig Cymraeg yn y Fenni'n sylweddol, mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol ag uchelgais y Cyngor i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg, a hefyd y targedau a nodir yn strategaeth 5 mlynedd y Cyngor 22-27 a hefyd y targedau a osodwyd | Ni fydd adleoli Ysgol Gymraeg Y Fenni yn golygu symud i adeilad newydd sbon ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy felly bydd amseroedd teithio hir o hyd i Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd effaith negyddol ar drefniadau cludiant presennol o'r cartref i'r ysgol, gan mai dim ond 0.4 milltir o'i safle presennol yw lleoliad newydd | Bydd yr adeilad newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Fenni yn derbyn buddsoddiad o tua £1 miliwn i adnewyddu ardaloedd a nodwyd cyn adleoli.<br><br>Bydd Cyngor Sir Fynwy yn parhau i ddatblygu ei drafodaethau a'i ymgysylltiad â Chyngor Sir Powys a Chyngor<br>Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i sicrhau darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yng ngogledd Gwent / de Powys i liniaru effaith negyddol bosibl y cynnig hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2232 y Cyngor.<br><br>Mae'r cynnig yn caniatáu cyfle i ddatblygu canolfan drochi ar y safle a fydd yn caniatáu i "hwyrddyfodiaid" gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, gan ddarparu cyfleoedd pellach i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir. | arfaethedig yr ysgol. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n byw ar ffin y meini prawf pellter o 1.5 milltir, gallai eu hawl gael ei dynnu'n ôl. | Bydd Fforwm y Gymraeg mewn Addysg y cyngor yn cael ei hysbysu'n agos ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar hyn.<br>Bydd y Cyngor yn parhau â'i ddeialog barhaus gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ynghylch y ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Gwynllyw fel bod addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol yn parhau i fod yn opsiwn deniadol i ddisgyblion sy'n dymuno cael profiad trochi addysg Gymraeg llawn.<br><br>Byddai cludiant o'r cartref i'r ysgol i'r safle newydd ond yn cael ei dynnu'n ôl os yw'r safle newydd yn golygu eu bod yn byw o fewn 1.5 milltir o gyfeiriad y cartref. Ystyrir bod hyn yn bellter cerdded rhesymol, ac mae o fewn meini prawf 2 filltir a osodir gan Lywodraeth Cymru. |
| **Gweithredol**<br><br>Recriwtio a Hyfforddi'r gweithlu | No impact<br>Bydd y cynnydd mewn capasiti cyfrwng Cymraeg yn cynhyrchu'r angen am nifer fwy o athrawon cyfrwng Cymraeg a staff cymorth yn ardal Y Fenni dros amser. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy a'r tu allan i'r ardal allu defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd gwaith. Bydd recriwtio yn haws a gall fod yn raddol. | Mae perygl na fyddwn yn gallu sicrhau digon o athrawon / staff Cymraeg eu hiaith i gyflawni gofynion yr ysgol newydd. | Er mwyn lliniaru'r risg hon, byddwn yn ymgysylltu'n agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r sefydliadau addysg uwch lleol i helpu i hwyluso mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn defnyddio'r holl offer recriwtio sydd ar gael i ni i gynorthwyo'r broses recriwtio – cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook, YouTube), gwefan y cyngor, safleoedd recriwtio Cyfrwng |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cymraeg pwrpasol, LinkedIn ac ati. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid yn Fforwm y Gymraeg mewn Addysg y sir i'n cynorthwyo yn y broses hon gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u hystod o gysylltiadau |
| **Darparu gwasanaethau**<br><br>Defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau<br><br>Hyrwyddo defnydd o'r iaith | Os cytunir ar y ddogfen ymgynghori bydd yn cael ei dosbarthu i randdeiliaid yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Bydd pob gohebiaeth a chyfathrebiad gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r cynnig hwn yn ddwyieithog yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Bydd yr arolwg adborth i'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ymatebwyr roi gwybod i ni am unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg y teimlant y byddant yn digwydd o ganlyniad i'r cynigion hyn. | Mae risg na fyddwn yn gallu recriwtio digon o staff arbenigol yr awdurdod lleol Cymraeg eu hiaith i ddarparu'r holl wasanaethau yn Gymraeg. | Er mwyn lliniaru'r risg hon, byddwn yn ymgysylltu'n agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a'r sefydliadau addysg uwch lleol i helpu i hwyluso mwy o staff cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn defnyddio'r holl offer recriwtio sydd ar gael i ni i gynorthwyo'r broses recriwtio – cyfryngau cymdeithasol (Twitter, Facebook, YouTube), gwefan y cyngor, safleoedd recriwtio Cyfrwng Cymraeg pwrpasol, LinkedIn ac ati. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid yn Fforwm y Gymraeg mewn Addysg y cyngor i'n cynorthwyo yn y broses hon gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u hamrywiaeth o gysylltiadau. |

4. **A yw eich cynnig yn cyflawni unrhyw un o'r nodau llesiant isod?** Esboniwch yr effaith (cadarnhaol a negyddol) a ddisgwyliwch, ynghyd ag awgrymiadau ar sut i liniaru effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at y nod. Does dim angen rhoi rhywbeth ym mhob blwch os nad yw'n berthnasol!


| **Nod Llesiant** | **A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol.** | **Pa gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Mae defnydd effeithlon o adnoddau, pobl fedrus, addysgedig, yn creu cyfoeth, yn darparu swyddi | Mae'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi fel iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd cyflogaeth o | Dim effaith |

| | | |
|---|---|---|
| | ganlyniad i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd mwy o gyfleoedd cyflogaeth o fewn yr ysgol newydd arfaethedig | |
| **Cymru gydnerth** Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau tir, afonydd ac arfordirol sy'n cefnogi gwydnwch ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd) | Dim Effaith | Dim Effaith |
| **Cymru iachach** Mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei gynyddu a deellir effeithiau iechyd | Byddai'r cynnig hwn yn arwain at fwy o blant yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned a gallu cerdded i'r ysgol yn hytrach na chael eu cludo. | Dim Effaith |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** Mae cymunedau'n ddeniadol, yn hyfyw, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda | Bydd rhieni sy'n ceisio addysg Gymraeg i'w plant yn ardal Y Fenni yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth o fewn eu cymuned. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i fwy o ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol mewn lleoliadau cymdeithasol ac amrywiaeth o gyd-destunau dilys. | Dim Effaith |
| **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** Ystyried yr effaith ar les byd-eang wrth ystyried lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Dim Effaith | Dim Effaith |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** Mae diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu. Dywedodd pobl | Os cytunir ar y cynnig, bydd strategaeth Llywodraeth Cymru o Filiwn o Siaradwyr Cymraeg yn cael ei chefnogi gan y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dim Effaith |

| **Nod Llesiant** | **A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol.** | **Pa gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|
| Anogir pobl i ymgymryd â chwaraeon, celf a hamdden | | |
| **Cymru fwy cyfartal**<br>Gall pobl gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau | Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fenni yn golygu y bydd mwy o ddysgwyr yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chynyddu eu cyfle o sicrhau cyflogaeth fel oedolion a chyflawni eu potensial. | Dim effaith |

**5. Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor llywodraethu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?**

| **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** | **A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Os oes, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam.** | **A oes unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|
| Cydbwyso angen byrdymor â hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol | Os yw dysgwyr yn gallu mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn eu cymuned leol, neu o fewn amser teithio byr, maent yn fwy tebygol o ddewis a pharhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. | Dim Effaith |
|   Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni amcanion | Cefnogir y cynnig hwn gan ein Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, cynrychiolir y fforwm gan nifer o bartneriaid allweddol yr ymgynghorir â hwy ac sy'n hanfodol wrth gyflawni targedau ein CSCA. | Dim Effaith |

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Os oes, disgrifiwch sut. Os na, esboniwch pam. | A oes unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|
|   Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn | Bydd yr ysgol yn gwasanaethu clwstwr cyfan y Fenni a bydd ymgynghori â phawb sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Yn ogystal, mae aelodau'r Fforwm wedi cymryd rhan weithredol yn y cynnig. | Dim Effaith |
|   Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y safle sydd dan bwysau a'r<br>llety dros dro yn atal teuluoedd sydd am gael mynediad i Addysg Gymraeg. Gall hyn fod yn atal y galw ac yn arwain at rieni yn dewis peidio â dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Gall cael ysgol bwrpasol 420 o leoedd ar gyfer cyfrwng Cymraeg ddatrys y mater hwn a hefyd ysgogi'r galw. | Dim Effaith |
|   Ystyried effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill | Bydd sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn y gymuned leol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion y Fenni. | Dim effaith |

6. **Mae'r Cyngor wedi cytuno bod angen ystyried yr effaith y mae ei benderfyniadau'n ei wneud ar y cyfrifoldebau pwysig canlynol: Rhianta Corfforaethol a Diogelu. A yw eich cynigion yn mynd i effeithio ar unrhyw un o'r cyfrifoldebau hyn?**

| | Disgrifiwch unrhyw effeithiau cadarnhaol sydd gan eich cynnig | Disgrifiwch unrhyw effeithiau negyddol sydd gan eich cynnig | Beth fyddwch chi'n ei wneud/ydych chi wedi'i wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
|---|---|---|---|
| Diogelu | Bydd trefniadau diogelu priodol yn parhau i fod ar waith ar y safle newydd. | Dim effaith | Dim Effaith |
| Rhianta Corfforaethol | Dim Effaith | | |

**7. Pa dystiolaeth a data sydd wedi llywio datblygiad eich cynnig?**

Arolwg cyflwr ac addasrwydd ymgynghriaeth Faithful + Gould gan gynnwys ôl-groniad y gofynion cynnal a chadw a nodwyd (mae'r ddogfen Cynnig yn dyfynnu mesurau o ran ôl-groniad y gofynion cynnal a chadw lleol)

Data a ddarparwyd gan Iechyd ar nifer y "genedigaethau byw" yn y Sir.

Data o Gynllunio ar nifer y Datblygiadau Tai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Niferoedd presennol ar gofrestrau ysgolion a dadansoddiad o’r tueddiadau.

Lleoedd gwag – data gan dîm Mynediad Cyngor Sir Fynwy

Cynllunio data lleoedd ysgolion – Tîm Mynediad Cyngor Sir Fynwy

**8. CRYNODEB: O ganlyniad i gwblhau’r ffurflen hon, beth yw prif effeithiau cadarnhaol a negyddol eich cynnig, sut y maent wedi llywio/newid datblygiad y cynnig hyd yn hyn a beth fyddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol?**

Prif fanteision y cynnig yw drwy gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn Y Fenni a ddarperir drwy well cyfleusterau addysgu a dysgu, rydym yn debygol o gynyddu'r galw am y rhai sy'n dymuno cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg ar draws Sir Fynwy gan gyrraedd ein targedau o fewn ein CSCA. Byddwn hefyd yn cyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

**9. CAMAU GWEITHREDU: O ganlyniad i gwblhau’r ffurflen hon a oes unrhyw gamau pellach y byddwch yn eu cymryd? Rhowch fanylion amdanynt isod, os yw'n berthnasol.**

| **Beth ydych chi'n mynd i wneud?** | **Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** |
|---|---|---|
| Dd/B | | |
| | | |
| | | |

**10. FERSIWN RHEOLI: Dylid defnyddio'r Gwerthusiad Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol cyn gynted â phosibl, megis yn anffurfiol o fewn eich gwasanaeth, ac yna ei ddatblygu ymhellach drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon i ddangos sut yr ydych wedi ystyried cydraddoldeb ac ystyriaethau cenedlaethau'r dyfodol lle bynnag y bo modd.**

| **Rhif y Fersiwn** | **Cam gwneud penderfyniadau** | **Dyddiad ystyried** | **Disgrifiad byr o unrhyw ddiwygiadau a wnaed yn dilyn ystyriaeth** |
|---|---|---|---|
| 1 | TRhA PaPhI | 08/01/24 | |
| 2 | Cabinet – caniatâd i ymgynghori | 17/01/24 | |
| 3 | Cabinet – adborth ymgynghori a gwneud penderfyniadau terfynol | Gorffennaf 24 | |